# GALLWCH DEIMLO'N DDIOGEL YN Y BYD CYTHRYBLUS HWN!

*Nodyn i'r siaradwr:*
Wrth draddodi, argyhoeddwch heb fod yn ddogmatig gan arddangos cynhesrwydd a theimlad

**PAM NAD YDI POBL YN TEIMLO'N DDIOGEL** (3 mun.)

Am resymau dilys mae llawer yn poeni am eu diogelwch personol a diogelwch eu teulu (*g* 11/06 3) [Os yn bosib', crybwyllwch enghreifftiau lleol a diweddar o'r canlynol]

Corwynt yn dod ag angau a dinistr yn ei sgîl

Daeargryn yn chwalu tref yn sarn

Pla yn difa llawer

Drwgweithredwyr rheibus yn llercian yn y gymdogaeth

Brawychwyr yn ymosod gan droi tawelwch dydd yn hunllef o drais

Nifer cynyddol o genhedloedd yn datblygu arfau niwcliar gan fygwth diogelwch

Rhyfel ac anhrefn sifil yn codi arswyd ar filiynau o bobl

Oes 'na unrhyw sicrwydd diogelwch inni?

**DIFLANNODD YR YMDEIMLAD O DDIOGELWCH YM 1914** (15 mun.)

Fe wyddai efrydwyr y Beibl ddiwedd y 19eg ganrif fod arwyddocâd i'r flwyddyn 1914 (*jv* 60, 134-5)

Mae haneswyr seciwlar yn cydnabod fod 1914 yn drobwynt yn hanes dyn (*w*05 10/1 5; *w*04 2/1 20; *w*92 10/1 17; *rs* 239-40)

Mi ragfynegodd Iesu am ddigwyddiadau fyddai'n dileu unrhyw deimlad o ddiogelwch yn ein cyfnod ni [Darllen Mathew 24:3, 6-8] (*w*05 10/1 4-6)

*"Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd . . . Cyfyd cenedl yn erbyn cenedl"*

Mae Luc, wrth adrodd yr un hanes, yn dyfynnu Iesu'n dweud y byddem yn clywed am "ryfeloedd a gwrthryfeloedd" (Luc 21:9)

Mae rhyfeloedd, gwrthryfeloedd, terfysgoedd sifil, a brawychiaeth wedi dod yn bethau sy'n fwyfwy cyffredin oddi ar 1914

Canlyniad hyn ydi bod miliynau wedi colli'u bywydau (*w*06 9/15 4; *w*00 10/15 16; *w*97 4/1 9)

Erbyn hyn gwelir pobl rhai cenhedloedd a deimlai'n weddol ddiogel ar un adeg, nawr yn wynebu perygl brawychiaeth bob dydd

Mae pobl ar hyd a lled y ddaear nad ydyn nhw mwyach yn teimlo'n ddiogel

Ym 1914 daeth y rhyfel *byd* cyntaf

Nid gwrthdaro arferol rhwng dwy fyddin oedd hyn ond rhyfel rhwng cenhedloedd cyfan gan effeithio ar boblogaethau sifil (*rs* 235)

'Dygwyd heddwch oddi ar y ddaear' ym 1914 (Dat 6:4; *re* 93-4)

Mae rhyfeloedd ac ymladd ethnig yn parhau

Mewn llawer ardal, clywir sain brwydro sy'n agos ac adroddiadau am frwydrau sydd ymhell (*w*70 43)

Wrth iddo roi arwydd ei bresenoldeb anweledig, geiriau annisgwyl Iesu oedd: "Gofalwch beidio â chyffroi" (Math 24:6)

Dim ond y rhai sy'n deall ystyr geiriau Iesu fyddai'n llwyddo i gael y tawelwch hwn [Darllen Mathew 24:7]

*"Bydd adegau o newyn"*

Heddiw, mae llawer yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddigon o fwyd ar gyfer eu teuluoedd oherwydd diffyg arian neu brinder tir neu oherwydd sgîl-effeithiau rhyfel (*w*06 9/15 4; *w*04 1/1 4; *g*00 5/8 4-5)

Mae cannoedd o filiynau yn diodde'n erchyll oherwydd newyn

*"Daeargrynfâu mewn mannau"*

Oddi ar 1914, mae daeargrynfâu dinistriol, ar gyfartaledd, wedi taro 20 gwaith yn amlach bob blwyddyn nag yn ystod y 2,000 o flynyddoedd cyn 1914 (*rs* 236)

Ers 1914, ar gyfartaledd bu 18 daeargryn, bob blwyddyn, oedd yn ddigon nerthol i ddymchwel adeiladau a hollti'r ddaear (*w*05 10/1 6)

Mae daeargrynfâu wedi achosi marwolaeth cannoedd o filoedd yn ystod y can mlynedd diwethaf (*w*06 9/15 4-5)

Mae'r rhai sy'n goroesi yn dioddef hunllef ac yn dyheu am le diogel (*w*95 10/15 4) [Darllen Luc 21:11]

*"Bydd . . . plâu mewn mannau"*

Ar ddiwedd Rhyfel Byd I, fe laddodd y ffliw Sbaenaidd hyd at 50 miliwn o bobl (*w*05 10/1 5)

Er gwaethaf cynnydd meddygaeth, mae ofn ar yr holl ddynoliaeth rhag gweld plâu heintus marwol yn ymledu (*w*06 9/15 5)

Dywedodd Iesu y byddai “arwyddion enfawr” yn nodweddu’r cyfnod hwn, ac y byddai “pobl yn llewygu gan ofn wrth ddisgwyl y pethau sy’n dod ar y byd” [“y byd trigiannol” *BCL*, 1908] (Luc 21:11, 26; *w*95 10/15 5-8)

Sut, felly, mae hi’n bosib’ byw yn y byd cythryblus hwn *heb* ddychryn a chynhyrfu?

**LLE I GANFOD GWIR DDIOGELWCH** (22 mun.)

Mae Jehofah Dduw yn sicrhau y sawl sy’n ei addoli mewn “ysbryd a gwirionedd” y bydd yn ei amddiffyn (Ioan 4:24; Salm 46:1)

Mae enw Duw yn dŵr cadarn [Darllen Diarhebion 18:10]

Mae gan y sawl sy’n dod i wir nabod Jehofah ac ymddiried ynddo sail gadarn dros deimlo’n ddiogel a chadarn (Diar 3:5, 6; *cl* 68, 70)

Pan fyddwch yn teimlo’n bryderus ynglŷn ag ansefydlogrwydd y drefn bresennol hon meddyliwch am eiriau Philipiaid 4:6, 7 a’u gweithredu [Darllen]

Gall tangnefedd Duw, sef cyflwr dwfn digynnwrf mewnol, ymlid pryder ac ofn gan gyfrannu at ymdeimlad o ddiogelwch (*w*94 11/15 22)

O gael y tangnefedd hwn gallwn “drigo mewn diogelwch,” a gwybod na fydd Jehofah yn caniatáu inni ddioddef niwed arhosol (Salm 4:8, *BCL*)

Wrth iddo ddisgrifio nodweddion arwydd ei bresenoldeb (gweler uchod), gwelodd Iesu debygrwydd rhwng byd oes Noa cyn y Dilyw a’n hoes ni [Darllen Mathew 24:37-39]

Sefydlodd y Dilyw batrwm ar gyfer ein hoes ni [Darllen 2 Pedr 2:5, 6, 9]

Dinistriwyd byd trais y cyfnod hwnnw gan y Dilyw (2Pedr 3:5-7)

Pam arbedwyd Noa a’i deulu rhag dinistr y cyfnod hwnnw?

Oherwydd “rhodiodd Noa gyda Duw”; ufuddhaodd ef a’i deulu i Jehofah a chael gwir ddiogelwch yn yr arch (Gen 6:9)

Felly ninnau nawr, rhaid manteisio ar y lloches ddiogel sy’n ddarpariaeth gan Jehofah—yr arch ffigyrol (*w*97 3/1 12)

Sumbol ydi hyn o’r baradwys ysbrydol mae Jehofah wedi bod yn ei datblygu ymhlith ei addolwyr oddi ar 1919—cyflwr perthynas heddychlon adferedig gyda Duw (*w*86 1/1 14-15)

[Mi ystyriwn rai nodweddion y baradwys ysbrydol (*w*01 3/1 8-11)]

Mae darpar oroeswyr dynol eisoes yn mynd i mewn i’r “arch” hon er mwyn dianc yn ddiogel rhag y “gorthrymder mawr” ddaw i’w anterth gydag Armagedon (Math 24:21)

Bydd Armagedon yn dinistrio cyfundrefn anniogel, ddrygionus y Diafol

Caiff y goroeswyr eu hebrwng i ddaear wedi’i glanhau—man llythrennol tebyg i ardd lle bydd gwir heddwch a diogelwch (Dat 7:9, 10, 14-17; 21:4)

Yn fuan fe ddaw Iesu “yn ei ogoniant” i farnu dynoliaeth [Darllen Mathew 25:31-33] (Ioan 5:22, 27; *w*95 10/15 22-3)

Fe gaiff y “defaid,” y “rhai cyfiawn,” dderbyn “bywyd tragwyddol” ym myd newydd Duw (Math 25:46; 2Pedr 3:13)

Cawn ein hystyried yn perthyn i’r defaid rai os byddwn wedi rhoi cefnogaeth weithredol dros gyfnod o amser i frodyr Crist—ei ganlynwyr eneiniog—y rhoddwyd iddyn’ nhw gomisiwn “glynu wrth dystiolaeth Iesu” (Dat 12:17; Math 25:34-40; *w*95 10/15 25-8)

**CEISIWCH WIR DDIOGELWCH NAWR** (5 mun.)

Peidiwch â chael eich camarwain! Mae’r addewidion mae Satan yn eu cynnig ynghylch diogelwch yn ffug [Darllen 1 Thesaloniaid 5:2, 3]

Celwydd ydi honiadau llywodraethau dynol y gallant wneud eu dinasyddion yn wir ddiogel rhag argyfwng (Salm 146:3)

Jehofah ydi unig ffynhonnell gwir ddiogelwch

O wrando ar ei Air, y Beibl, medrwn ddod o hyd i wir ddiogelwch

Er bod yn rhaid inni wynebu treialon y byd amherffaith hwn, a hyd yn oed farwolaeth efallai, ni fydd Jehofah yn ein gadael (Salm 94:14)

Mi fydd Jehofah yn cofio’i ffyddloniaid, a bydd yn eu hatgyfodi nhw yn ei amser priodol ei hun (Ioan 5:28, 29; *cl* 74)

Heddiw, mae sefyllfa’r byd yn codi arswyd ar bobl

Ond mae’n bosib i chi deimlo’n ddiogel yn y byd cythryblus hwn!

Nawr, cyn iddi fynd yn rhy hwyr, yw’r amser i ymateb i’r newydd da am Deyrnas Dduw! (Math 24:14)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, gan gadw at amser penodedig pob adran. Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)


© 2007 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir pob hawl